# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 11/10/2022 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Rhian Sanson | Gruffydd Williams | Gareth Jones | Mared Llywelyn Williams |
| Caren Jones | Arfon Hughes | Alaw Llewelyn Roberts | Sharon Williams | Lleucu Jones |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn, Carys Roberts, Janice Evans, Gito Williams a Gwynfor Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Alaw Llewelyn Roberts – Cais cynllunio C22/0902/42/LL
   Catrin Roberts – Cais cynllunio C22/0898/42/LL

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 13/09/2022
   Cafwyd cais i ychwanegu brawddeg ar gychwyn y cofnodion i egluro bod CTN wedi penderfynnu drwy ebost i gario ymlaen i gyfarfod ar y dyddiad yma gan nad ydynt wedi cyfarfod ers mis Gorffennaf a bod nifer o'r eitemau angen penderfyniad ar frys.
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Mared Llywelyn Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim.

5. **Barn CTN ar y datblygiad tai fforddiadwy i bobol leol yn Morfa Nefyn –** Catrin Roberts Gwasanaeth Hwylusydd Tai Glwedig/Ty Gwynedd
   Cafwyd cyflwyniad ar y Cynllun Prynu Cartref Gwynedd gan Catrin Roberts o Grŵp Cynefin a Cara Owen o Cyngor Gwynedd gyda cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynnau ar y diwedd. Eglurwyd y broses ymgynghori ac yn dilyn y cyflwyniad a'r drafodaeth heno gyda CTN fel y man cychwynol y cam nesaf yw llythyru y gymuned hefo linc i holiadur a cynnal diwrnod agored er mwyn cael eu mewnbwn ar y cynllun. Bydd adroddiad yn cael ei wneud ar ôl y cyfnod ymgynghori ac fe fydd yn cael ei rannu hefo CTN gyda cynnig i ddod yn ôl i gyfarfod CTN i drafod cynwys yr adroddiad. Er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf cafwyd cais am leoliad i gynnal y diwrnod agored yn Morfa Nefyn a cynigiwyd Ganolfan Morfa Nefyn ac mae'r clerc am basio y manylion cyswllt iddynt gysylltu yn uniongychol i drefnu y diwrnod agored. Gobeithir ei drefnu ar unai dydd Mawrth, Mercher neu Iau rhwng 3.30 – 6.30 er mwyn rhoi cyfle i bawb fynychu ac ar ôl hanner tymor. Maent am adael i CTN wybod pa bryd fydd y diwrnod agored ac am gadw mewn cysylltiad drwy gydol y broses a diolchodd y cadeirydd iddynt am y cyflwyniad.

6. **Arwydd Uwchben Siop Siarad –** dewis logo

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

Nid yw'r aelod wedi cael cyfle i wneud dyluniad drafft arall allan o'r logo a yrrwyd iddi gan un o'r aelodau eraill sef hen arfbais Nefyn ac felly mae hi am roi rhywbeth at ei gilydd erbyn y pwyllgor nesaf.

7. **Dylunio afrbais y 3 pennog ar gefndir gwyn mewn siap tarian er mwyn ei rhoi ar un o fyriau Nefyn –** Gruffydd Williams
Gan fod eitem 6 a 7 yn cyfeirio at yr un peth cytunwyd mai dim ond un dyluniad sydd angen o hen arfbais Nefyn i'w roi uwchben Siop Siarad ac ar un o furiau Nefyn.

8. **Coed Nadolig a'r Gwasanaethau Goleuo –** Clerc
Mae angen penderfynnu o lle mae CTN yn cael y coed nadolig ar gyfer y tri pentref eleni gan nad oedd CTN yn hapus hefo cyflwr y coed y llynedd ac mewn digon o amser i drefnu eu bod i fyny cyn ymweliad Sion Corn a'r gwasanaethau goleuo sydd fel arfer yn cychwyn yr wythnos ddiwethaf ym mis Tachwedd. Mae un o'r aelodau yn gwybod am gwmni yn Ynys Môn sydd yn gwerthu coed 'Norway Spruce' o'r un maint a sydd ei angen arnom ac mae hi am yrru'r manylion i'r clerc. Unwaith y bydd y clerc wedi cael hyd i dair coeden o'r maint iawn yna fe fydd yn cysylltu hefo'r contractwr sydd yn arfer gosod a tynnu'r coed ac hefo'r busnesau sydd yn arfer talu am y coed i weld os ydynt eisiau cario ymlaen gyda'r un trefniadau a'r llynedd.

9. **Sul y Cofio –** Clerc
Yr unig beth sydd angen ei benderfynnu ar y mater yma ydi dewis tri aelod, un o bob pentref, i osod y torchau yn y gwasanaethau Sul y Cofio, fe fydd y clerc yn gwneud y trefniadau eraill sef cysylltu hefo'r heddlu i ofyn am eu presenoldeb nhw wrth y Gof Golofn yn Nefyn ac Edern a rhoi ceisiadau i mewn i gau y ffyrdd yn y ddau bentref yna pan fydd y gwasaneth ymlaen.
Penderfyniad: Arfon Hughes i osod torch Nefyn, Gwynfor Jones i osod torch Edern ac os na fydd yn gallu gwneud yna Caren Jones i wneud a'r clerc i ofyn i Janice Evans osod torch Morfa Nefyn.

10. **Gwaith cynnal a chadw i'r cael aml ddefnydd –** Gruffydd Williams
Nid yw'r cae aml ddefnydd wedi cael ei drin ers 2018 ac mae'n hanfodol bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud arno yn rheolaidd.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r cwmni i drefnu bod y gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud ar y cae.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gareth Jones

11. **Mynwent Edern –** Clerc – diweddariad
Yn dilyn y pwllgor diwethaf mae'r clerc wedi llwyddo i gael caniatad yr Henaduriaeth i gymeryd trosodd Mynwent Edern, mae hyn yn golygu mai CTN fydd yn gyfrifol am dorri'r gwellt, gwagio'r biniau a rhoi'r hawl i gladdu a trefnu agor y beddi ac fe fydd yr arian claddu yn cael ei gadw gan CTN fel sydd yn digwydd yn Nefyn ac Morfa Nefyn. Maent yn hynod ddiolchgar am y cynnig yma ac yn diolch i CTN. Mae'r clerc am gysylltu gyda pwyllgor y fynwent i drefnu pob peth a diolchodd aelod Edern i'r clerc.

12. **Cardiau llongyfarch –** Cadeirydd
Cais yw hwn gan y cadeirydd i yrru cardiau llongyfarch ar ran CTN i Esyllt Maelor a Meinir Pierce Jones i'w llongyfarch ar eu llwyddiant yn yr eisteddfod a cytunodd bawb i'r clerc wneud hynny.

**13. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Llythyr Dr Arfon Williams – Cronfa Covid-19**
  **Penderfyniad**: y clerc i gysylltu hefo Ty Doctor i ofyn am yr arian a gyfranwyd gan CTN yn ôl.
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**14. Ceisiadau Cynllunio**

**C22/0888/42/LL –** Cwmistir Bach, Lôn Cae Glas, Edern - cais ar gyfer codi estyniad dau lawr i gefn y tŷ gwreiddiol ynghŷd âc estyniad un llawr i flaen y tŷ gwreiddiol a darparu toeau pits ar y ffenestri cromen.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.
**C22/0898/42/LL –** Land adjacent to existing funeral director workshop & public toilets, Morfa Nefyn – Adeiladu Capel Gorffwys.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

Ceisiadau Diweddarach
**C22/0902/42/LL –** Tir ger Tan yr Onnen, Lôn Isaf, Morfa Nefyn – Cais llawn i adeiladu tŷ fforddiadwy unllawr tair ystafell wely ar safle eithrio gwledig gyda modurdy integredig ynghŷd ag addasu mynedfa bresennol a chreu mynedfa gerbydol newydd.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad**.**
**C22/0877/42/RC** – 1 Llys Madryn, Lôn Uchaf, Morfa Nefyn – Cais ar gyfer dileu y cytundeb 106 tŷ fforddiadwy ynghlwm a chaniatad cynllunio C11/0458/42/MG
**Penderfyniad**: Gwrthod – Gosod cynsail ac mae'r ardal yma yn ardal sydd angen tai fforddiadwy.

**15. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1116.49
- Ad-daliad i'r Clerc – postio ceisiadau hysbysfyrddau (special delivery) - £7.65
- G. Williams – ail wynebu Rhodfa'r Môr Nefyn - £2268.00
- Tim Jones – Peintio tua 50 o'r meinciau - £1950.00
- Cyngor Gwynedd – Etholiad 2022 - £321.00
- D M Parry – pedwerydd taliad mynwent Nefyn & gwaith ychwanegol - £1080.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £8.38
- Information Commissioner – Deddf Diogelu Data - £40.00
- Tyddyn Sachau – Blodau Nefyn - £124.87 & Blodau Morfa - £109.95
- HMRC – PAYE Mis 6 - £119.44
- Proludic – Offer newydd i'r cae chwarae yn dilyn y difrod tân - £3501.30 o gyfrif Bryn Mynach

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Lleucu Jones

**16. Taliadau wedi eu derbyn**

- Praesept - £39750.00

**Rhandiroedd**

Cafwyd diweddariad gan aelod lleol Nefyn am y rhandiroedd sef bod un contractwr wedi bod yno hefo ‘digger’ a contractwr arall wedi bod yno hefo ‘soil conditioner’ ond nid yw’r peiriant wedi gwneud gwaith ddigon da felly mae o am fynd yn ôl yna i drio eto. Mae’r aelod lleol eisiau rhoi cais at ei gilydd i gael nawdd gan gronfa yr AHNE ac mae’r clerc am ei helpu.